**Eitem ar yr agenda: 12**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**20 RHAGFYR 2004**

**CYNLLUN LWFANSAU I AELODAU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Cymeradwyo'r cynllun lwfansau i aelodau.

**Cefndir**

2 Ar 28 Medi cymeradwyodd y Cynulliad y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 a oedd yn gwneud gofyniad i lunio cynllun, a daeth i rym y diwrnod wedyn. Penderfynodd yr Awdurdod Tân yn ei gyfarfod ar 20 Medi ei fod yn dymuno gwneud cynllun yn weithredol o 29 Medi. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r cynllun ddod i rym cyn y dyddiad hwnnw.

**Cyngor**

3 Yn ei gyfarfod ar 18 Hydref argymhellodd y Panel Gweithredol y cynllun sydd ynghlwm.

4 Mae dau fater i dynnu sylw'r awdurdod atynt.

4.1 gallai'r lwfansau gael goblygiadau treth i aelodau unigol: a'u cyfrifoldeb hwy yw gofalu bod unrhyw ymrwymiadau o ran treth yn cael eu cyflawni'n briodol;

4.2 yn dilyn rhagor o ystyriaeth o'r amgylchiadau sy'n effeithio ar rai ardaloedd o Ogledd Cymru lle mae teithiau ar gludiant cyhoeddus yn dechnegol bosib ond yn anymarferol oherwydd amser ac ati, cynigir ychwanegu'r geiriau canlynol ar ddiwedd paragraff 6.6. "oni bai fod defnyddio car am yr holl daith wedi cael ei gymeradwyo gan aelod o'r Grŵp Gweithredol". Mae'r cynllun sydd ynghlwm yn cynnwys y geiriau hynny.

**Goblygiadau Ariannol**

5 Goblygiadau ariannol amcangyfrifedig y cynllun a gymeradwyd a'r ddarpariaeth yn y gyllideb yw:

| | 2004-05 £ | 2005-06 £ |
|---|---|---|
| Lwfansau awdurdod tân, y cadeirydd a'r is-gadeirydd | 24,040 | 47,700 |
| Teithio a chynhaliaeth | 12,175 | 20,000 |
| Cyfanswm | 36,215 | 67,700 |
| Y Gyllideb | 60,650 | 67,700 |

**Argymhelliad**

6 Bod yr Awdurdod Tân yn cymeradwyo'r cynllun lwfansau sydd ynghlwm ar gyfer yr aelodau ac i ddod i rym o 29 Medi 2004 (1 Hydref 2004 yng nghyswllt lwfansau teithio a chynhaliaeth).